
Enw



DARLLENWCH
Luc 17: 11-19

Mae'r stori hon yn sôn am:
*Dweud "Diolch" wrth Iesu.*

# Stori 4 Iesu'n iacháu deg dyn sâl.



Un diwrnod, roedd Iesu'n mynd i mewn i bentref. Daeth deg dyn sâl i gwrdd ag ef. Roedd salwch cas ar eu croen ac felly doedden nhw ddim yn gallu byw gyda'u teuluoedd rhag ofn iddyn nhw fynd yn sâl hefyd. Doedd dim llawer o bobl yn gwella o'r salwch hwn. Ei enw oedd "y gwahanglwyf".

Pan welson nhw Iesu, dyma nhw'n gweiddi, "Iesu, feistr, helpa ni." Dywedodd Iesu wrthyn nhw am fynd i'w dangos eu hunain i'r offeiriaid. Aethon nhw ar unwaith. Wrth iddyn nhw fynd, digwyddodd gwyrth. Cafodd y deg dyn eu gwella!

Roedden nhw'n hapus iawn eu bod wedi gwella ond, gwaetha'r modd, dim ond un ohonyn nhw aeth yn ôl i ddweud "Diolch" wrth Iesu. Pan aeth y dyn hwnnw ato, gofynnodd Iesu "Lle mae'r lleill?" Roedd Iesu'n falch bod y dyn wedi dod yn ôl i ddiolch iddo. Roedd y dyn hwn yn dod o wlad wahanol i Iesu a'r naw dyn arall. Samariad oedd e. Roedd yn fwy diolchgar na'i naw ffrind.

**Lliwiwch y rhif cywir i ateb y cwestiynau.**

Sawl dyn gafodd eu gwella?

10 7 1

Sawl dyn ddaeth nôl i ddweud diolch?

1 3 9

Mae'n rhaid i ninnau hefyd wrando ar Iesu a diolch iddo am fod yn ffrind i ni.

10

Marciau
(i'w nodi gan yr arweinydd)

Cyfanswm

Cyfanswm Llawn

Cyhoeddwyd yn wreiddiol yn Saesneg gan: © Bible Educational Services. P.O. Box 42, Penarth, CF64 3YD.
Y gwersi ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim ar www.biblelinkit.com neu ffoniwch 01202 873500 am fwy o wybodaeth. Rhif elusen 1096157

Cyhoeddir y gwersi Cymraeg gan © 2008 Pwyllgor Amserbeibl Cymru.
Addasiadau Cymraeg gan Siân Roberts a Linda Lockley. Golygwyd gan Siân Roberts. Cysodwyd gan Ynyr Roberts.
Cyfres lawn o wersi dros dair blynedd i rai 4-15 oed ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim o **www.amserbeibl.org**
Am fanylion pellach neu i gyfrannu at y gwaith (rhoddion yn daladwy i 'Amserbeibl') cysylltwch ag:
Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH ☎ 01766 819120